## Bwletin o Batagonia 4 – Yr Hornero gan Twm Elias



*Yr Hornero neu'r pobydd coch yn y Gaiman*

Aderyn cenedlaethol yr Ariannin a Pharagwai yw yr Hornero *(Furnarius rufus)*. Horno yw popdy neu stôf, ac mae enw'r teulu, y *Furnariidae*, yn cyfleu yr un peth, sef popdy crwn wedi ei adeiladu o glai neu frics, ac a welir yn gyffredin ger tai ffermydd yn y Wladfa a'r Ariannin. Ei enw Cymraeg yw y pobydd coch, â'r coch yn cyfeirio at ei liw browngoch a chynffon goch. Mae pump aelod o'r teulu, oll yn ne America, â'r pobydd coch, sydd tua maint ein deryn du ni yng Nghymru, yn ymestyn o ganolbarth Brasil, Wrwgwai a Pharagwai hyd canol yr Ariannin.

Mae'r pobydd coch wedi medru addasu'n hawdd i bentrefi a threfi yn ogystal â chefn gwlad ac wedi llwyddo i ymledu dros y degawdau diwethaf cyn belled a Dyffryn Camwy lle gwelir ei nyth clai tebyg i gragen malwen ar ganghennau sawl coeden ar strydoedd y Gaiman.



Nyth clai y pobydd coch ar ffurf cragen malwen

Does dim straeon imi glywed fyddai'n esbonio pam y dewiswyd y pobydd coch yn aderyn cenedlaethol yr Ariannin. Mae'n debyg y digwyddodd hynny oherwydd ei fod yn gyffredin, yn adnabyddus, a chyda nyth mor arbennig. Nid oes unrhyw deulu arall o adar sy'n adeiladu nyth tebyg, nyth sy'n gaer amddiffynol rhag mamaliaid a nadroedd, yn enwedig gyda'r deryn ei hun yn gallu bod yn heriol a dewr. Fe'i gwelais yn dal ei dir ac yn hel adar mwy na fo'i hun i ffwrdd.


Hen bopty crwn yn Bryn Gwyn



‘Hornero ave nacional’ yr Ariannin ar yr arian papur 1,000 peso